



Eich cyf/Your ref:  
Ein cyf/Our ref:

Mike Hedges AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
SeneddCCERA@assembly.wales

22 Mawrth 2019

Annwyl Mike,

Ysgrifennaf atoch fel ymateb i'ch llythyr dyddiedig 28 Chwefror ynglŷn â chraffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol. Yn y llythyr, roeddech yn gofyn am eglurder ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu a ydy'n briodol ai peidio i Senedd y DU ddeddfu mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig, ac ynghylch rhaglen deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn a pha un a ydy'n bwriadu neilltuo amser ar gyfer deddfwriaeth Gymreig sy'n deillio o Brexit.

Yn benodol, gofynnoch am gael eglurder am y pwyntiau a ganlyn:

**Yr egwyddorion sydd wrth wraidd y modd y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r broses cydsyniad deddfwriaethol**

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn parhau fel y nodwyd gan y Prif Weinidog blaenorol yn ei lythyr i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 15 Tachwedd 2011.

Hynny yw, rydym yn dilyn yr egwyddor mai'r Cynulliad Cenedlaethol ddylai fod yn deddfu deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig. Fodd bynnag, o reidrwydd, mae amgylchiadau'n codi, a byddant yn parhau i godi, lle bydd yn synhwyrol ac yn fanteisiol i ddarpariaeth a fyddai fel arall o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad gael ei cheisio ar gyfer Cymru mewn Biliau gan Senedd y DU, gyda chydsyniad y Cynulliad. Yn aml, bydd darpariaeth o'r fath yn cynnwys rhoi pwerau dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru.

Gall cymryd darpariaeth mewn Bil gan Senedd y DU olygu bod modd cael atebion ymarferol, a hynny'n brydlon, gan barchu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy'r broses cydsyniad deddfwriaethol ar yr un pryd. Gall fod yn fater o lywodraeth dda ymarferol i gynnwys darpariaethau o'r fath mewn Bil gan Senedd y DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dyma rai enghreifftiau o sefyllfaoedd lle y byddai dull o'r fath yn briodol:

- *Pan fyddai cynnig deddfwriaethol Llywodraeth y DU hefyd yn briodol ar gyfer yr amgylchiadau Cymreig ond nid oes amser ar gael i ddarpariaethau tebyg gael eu cyflwyno yn y Cynulliad.*

Mae hyn yn berthnasol i'r Bil Amaethyddiaeth, y sonioch amdano yn eich llythyr, i'r perwyl bod cynnig deddfwriaethol Llywodraeth y DU yn briodol a bod yr amgylchiadau yn golygu ei bod yn ymarferol cynnwys y darpariaethau er mwyn rhoi sicrwydd i ffermwyr Cymru. Er na fyddai angen darpariaethau ym Mil Amaethyddiaeth y DU ar gyfer blwyddyn gynllun 2019 y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), gan ddibynnu ar natur ein hymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd, gallem wynebu bwlch deddfwriaethol ar gyfer blwyddyn gynllun 2020 os na fydd deddfwriaeth yn ei lle i barhau i wneud Taliadau Uniongyrchol. O ganlyniad, ni fyddai gan Lywodraeth Cymru y pŵer i gefnogi ffermwyr yn 2020 a thu hwnt. O ystyried y risg hon, rydym o'r farn ei bod yn gall sicrhau bod y pwerau gofynnol yn eu lle mewn da bryd, gan ddarparu'r sicrwydd sydd wirioneddol ei angen ar ffermwyr Cymru y bydd y gyfraith angenrheidiol yn ei lle i alluogi'r Llywodraeth i barhau i'w cefnogi ar ôl Brexit.

- *Pan fo'r cysylltiadau agos rhwng y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr yn golygu mai'r ffordd fwyaf effeithiol a phriodol o weithredu yw bwrw ymlaen â darpariaethau ar gyfer y ddwy wlad ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.*
- *Pan fo'r darpariaethau datganoledig dan sylw yn rhai mân neu'n dechnegol eu natur ac yn annadleuol.*

Mae hyn yn berthnasol i'r Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu), a grybwyllwyd gennych hefyd yn eich llythyr.

- *Pan fo'r Bil gan Senedd y DU yn ymwneud â materion datganoledig a rhai a gedwir yn ôl a rhaid dewis trywydd Senedd y DU i gyflawni'r amcan polisi.*
- *Pan fyddai cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu bwerau Gweinidogion Cymru yn cael eu hystyried mewn ffordd na ellid ei gyflawni drwy Ddeddf y Cynulliad, gan ystyried cyfyngiadau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.*

Mae hyn yn berthnasol i'r Bil Pysgodfeydd, y sonioch amdano hefyd yn eich llythyr, a fyddai'n ymestyn y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ar faterion yn ymwneud â physgodfeydd i'r parth Cymru y tu hwnt i Gymru.

Rwy'n cytuno â sylw'r Prif Weinidog y byddai'n hynod annoeth i Lywodraeth Cymru benderfynu gwadu yr hawl iddi'i hun ddeddfu mewn amgylchiadau o'r fath. Mewn gwirionedd, mae hyn yn fwy perthnasol eto o ystyried y cyfyng-gyngor sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd, gyda Brexit yn golygu bod angen sicrhau ar fyrder fod trefniadau yn eu lle ar unwaith a'n bod yn parhau i allu creu systemau newydd yn y dyfodol.

## **Y camau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd os na fydd Biliau Amaethyddiaeth a Physgodfeydd y DU yn cael eu pasio erbyn diwedd mis Mawrth 2019**

Mewn cyfnod mor ansicr byddai wedi bod yn ddymunol gallu rhoi sicrwydd i randdeiliaid cyn i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r oedi yn amserlen Senedd y DU yn golygu ei bod yn hynod annhebygol y bydd Bil Amaethyddiaeth y DU yn cael y Cydsyniad Brenhinol cyn diwedd mis Mawrth 2019. Er gwaethaf hynny, rwy'n disgwyl i'r pwerau angenrheidiol fod yn

eu lle cyn 2020, gan olygu ein bod yn dal i allu darparu sicrwydd i ffermwyr Cymru y bydd cyfraith yn ei lle sy'n caniatáu i'r Llywodraeth eu cefnogi pan fyddwn yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

O ran Bil Pysgodfeydd y DU, ynghyd â'r gyfres o offerynnau statudol (OSau) cywirol, mae OSau wrth gefn yn cael eu cyflwyno a fydd ar gael os bydd y DU yn ymadael â'r UE ddiwedd mis Mawrth a'r Bil Pysgodfeydd heb gael ei ddeddfu. Bydd yr OSau wrth gefn hyn yn caniatáu inni reoli gweithgareddau llongau pysgota tramor. Nid yw hwn yn ateb delfrydol ond mae'n pontio â'r drefn newydd y bydd y Bil yn ei chyflwyno.

### **Cadarnhad y bydd amser yn cael ei neilltuo i gyflwyno Biliau Cymreig sy'n deillio o Brexit cyn diwedd y Cynulliad hwn**

Fel y mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi dweud eisoes, bwriedir i'r pwerau sy'n cael eu cymryd ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mil Amaethyddiaeth y DU fod yn rhai trosiannol hyd nes y bydd modd cyflwyno ein deddfwriaeth sylfaenol ein hun. Rydym yn parhau'n ymroddedig i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol. Mae swyddogion yn adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad Brexit a'n Tir ac mae'r Gweinidog wedi cadarnhau ei bod yn bwriadu cynnal ymgynghoriad pellach ar Bapur Gwyn yn yr haf. Fel y byddai'r Pwyllgor yn ei ddisgwyl rwy'n siŵr, rydym yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid ac yn rhoi ystyriaeth briodol i'w barn er mwyn sicrhau bod y deddfwriaeth yn addas at y diben.

O ran Bil Pysgodfeydd Cymru, mae'n glir y bydd angen inni ar ryw gam roi'r darpariaethau ar lyfr statud Cymru. Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi bod yn gwbl glir mai rhai trosiannol yw'r pwerau yr ydym yn eu ceisio. Fodd bynnag, mae'n anodd ymrwymo i amserlen hyd nes y bydd Bil Pysgodfeydd y DU wedi pasio drwy Senedd y DU. Rydym yn ddibynnol ar amryw o ddarpariaethau, ac yn benodol y ddarpariaeth i ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Yn achos Egwyddorion a Llywodraethu Amgylcheddol, cyhoeddwyd ymgynghoriad ar 18 Mawrth sy'n ceisio barn ar sut i gynnal trefniadau llywodraethiant amgylcheddol effeithiol a rhesymegol ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal am gyfnod o ddeuddeg wythnos ac rydym yn paratoi cynlluniau ar gyfer pob canlyniad posibl, gan gynnwys yr angen am deddfwriaeth sylfaenol Gymreig.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir



**MARK DRAKEFORD**